# LLAETH Y LLAN




Fferm 50 acer ym mhentref Llannefydd ger Dinbych yw Tal-y-Bryn, ac yma yn y flwyddyn 1985 y cychwynnwyd busnes iogwrt 'Llaeth y Llan'. Penderfynodd Gareth a Falmai Roberts fod angen arallgyfeirio er mwyn cynyddu incwm y fferm, a bu'r ddau ar amrywiol gyrsiau i ddysgu mwy am gynhyrchu bwyd a chynnal busnes. Go brin fod y ddau wedi breuddwydio y byddai eu iogwrt mor boblogaidd ac yn cael ei werthu ledled Prydain. Mae'r fferm bellach yn atyniad i ymwelwyr sy'n awyddus i gael cipolwg ar sut mae'r iogwrt arbennig yn cael ei wneud. Un gyfrinach fawr sy'n cael ei chadw yw'r rysáit! Bu Gareth yn arbrofi ac yn ei berffeithio dros y blynyddoedd a chyfrinach y teulu'n unig yw'r cynhwysion.

Erbyn hyn mae'r cwmni yn creu iogwrt mewn amrywiaeth o flasau. Mae'r cynnyrch yn cael ei werthu i nifer o archfarchnadoedd mawr ledled Prydain, siopau bwyd amrywiol, gwestai, bwytai, ysgolion, colegau a chanolfannau garddio. Oes, mae galw mawr am y cynnyrch arbennig.

Erbyn hyn, mae Gareth a Falmai Roberts wedi trosglwyddo'r busnes i'w dau blentyn hynaf. Y nhw bellach sy'n gyfrifol am redeg y cwmni. Mae'r mab, Owain, yn gyfrifol am redeg y busnes o ddydd i ddydd yn ogystal â bod yn gyfrifol am ddosbarthu'r cynnyrch. Ar ôl gweithio yn Llundain am ddeng mlynedd ym maes ffasiwn, mae'r ferch, Llior, yn ôl yn Llannefydd, a bellach yn gweithio ar ochr farchnata ac ariannol y cwmni. Llior oedd yn gyfrifol am greu cynllun newydd i'r potiau iogwrt. Yn ôl Llior, "Roeddwn yn awyddus i fynd yn ôl i wreiddiau'r cwmni pan oedd y potiau'n streipiog, y cyfnod pan sefydlodd Mam a Dad y cwmni. Roedden ni hefyd eisiau rhoi wyneb newydd a ffres i'r cynnyrch. Mae'r newid hwnnw wedi codi ymwybyddiaeth o'r cynnyrch, a bellach mae hysbyseb wedi ei chreu i'w dangos ar y teledu hefyd."

Does dim dwywaith fod cwmni 'Llaeth y Llan' yn mynd o nerth i nerth dan ofal Owain a Llior. Yn ôl Llior, "Mae gennym ni gynnyrch arbennig a thîm cryf a gweithgar tu ôl i ni. Rydyn ni'n hynod falch o'r cwmni ac yn falch iawn o'r iogwrt sy'n gael ei greu ar y fferm, ac sydd bellach ar gael mewn pedwar blas ar ddeg."

> "Fferm wledig hyfryd sy'n cynhyrchu iogwrt bendigedig o'r radd flaenaf. Os byddwch yn ymweld â'r fferm mewn grŵp mae modd trefnu *buffet*. Mae'r gerddi yno yn werth eu gweld ac mae modd cael gweld y gweithdy cynhyrchu iogwrt. Heb amheuaeth, dyma'r iogwrt gorau i mi ei flasu erioed."
>
> *Gwefan Tripadvisor*

Mae teulu fferm Tal-y-Bryn wedi arallgyfeirio ymhellach a nawr maent yn darparu gwely a brecwast i ymwelwyr. Mae'r busnes hwnnw hefyd wedi tyfu ac yn llewyrchus iawn. Cewch wybodaeth ychwanegol ar eu gwefan:

http://www.tal-y-bryn-guesthouse.co.uk

## Iogwrt Llaeth y Llan

Potiau bach 125g - ar gael mewn 14 blas

Potiau mawr 450g - ar gael mewn 6 blas

Iogwrt compot ffrwyth 145g

Gellir prynu iogwrt hefyd mewn sawl maint a mesur e.e. bwcedi galwyn neu ½ galwyn, a photiau bach 85g ar gyfer ysgolion.

**Darllen**

1. Ble mae fferm Tal-y-Bryn?

*(Adalw gwybodaeth)*

---

2. Nodwch a yw'r brawddegau canlynol yn gywir neu'n anghywir drwy roi ✓ yn y golofn briodol. Mae un ateb wedi ei wneud i chi'n barod.

*(Adalw gwybodaeth)*

| | Cywir | Anghywir |
|---|---|---|
| Mae Tal-y-Bryn yn fferm 50 acer. | | |
| Roedd Gareth a Falmai Roberts eisiau gostwng incwm y fferm. | | |
| Mae cwmni Llaeth y Llan yn cynhyrchu iogwrt. | | |
| Mae'r cwmni'n gwerthu eu cynnyrch i siopau yng Nghymru. | | |
| Bu'r ferch, Llior, yn gweithio yn Llundain am ddeuddeng mlynedd. | | |
| Mae dau blentyn hynaf y teulu'n rhedeg y busnes erbyn hyn. | | |
| Potiau iogwrt patrymog oedd gan y cwmni ar y dechrau yn 1985. | | |

3. Tanlinellwch yr ymadrodd sy'n dangos bod cwmni 'Llaeth y Llan' wedi tyfu a datblygu.

*(Deall cyd-destun)*

> Does dim dwywaith fod cwmni Llaeth y Llan yn mynd o nerth i nerth dan ofal Owain a Llior. Yn ôl Llior, " Mae gennym ni gynnyrch arbennig a thîm cryf a gweithgar tu ôl i ni. Rydyn ni'n hynod falch o'r cwmni ac yn falch iawn o'r iogwrt sy'n gael ei greu ar y fferm."

4. Sawl blas iogwrt sydd ar gael mewn potiau 450 gm? Rhowch ✓ yn y blwch priodol.

*(Adalw gwybodaeth)*

a. 14 blas ☐
b. 12 blas ☐
c. 8 blas ☐
ch. 6 blas ☐

5. Yn ogystal â chynhyrchu iogwrt, pa fusnes arall mae’r teulu’n ei redeg? Rhowch ✓ yn y blwch priodol.

*(Adalw gwybodaeth)*

| | | |
|---|---|---|
| a. | gwesty | ☐ |
| b. | gwely a brecwast | ☐ |
| c. | maes carafannau | ☐ |
| ch. | glampio | ☐ |

6. Beth yw pwysau’r pot lleiaf o iogwrt mae’r cwmni’n ei gynhyrchu?

*(Adalw gwybodaeth)*

______________________________________________

**Llafaredd**

7. Mewn grŵp, cynlluniwch fusnes mewn maes o’ch dewis chi. Bydd rhaid cael cynnyrch i’w werthu. Ar ffurf rhaglen *Dragon’s Den*, ceisiwch werthu eich cynnyrch fel un llwyddiannus, gan gyflwyno gwybodaeth fanwl am y cynnyrch.

8. Mewn grŵp, lluniwch hysbyseb i iogwrt ‘Llaeth y Llan’. [Gellir dangos yr hysbyseb sy’n bodoli fel sbardun i’r dasg.] Penderfynwch ar feini prawf llwyddiant i hysbyseb effeithiol. Trafodwch beth dybiwch chi sy’n bwysig i dynnu sylw’r cyhoedd at y cynnyrch. Ffilmiwch y gwaith gorffenedig.

9. Ydych chi’n credu y dylai labeli bwyd sydd wedi ei gynhyrchu yng Nghymru fod yn y Gymraeg yn unig? Trafodwch fanteision ac anfanteision hyn.

**Ysgrifennu**

10. Ysgrifennwch **adolygiad** i wefan *Tripadvisor* am unrhyw fwyty rydych chi wedi ymweld ag e.

11. Ysgrifennwch **stori fer** sydd â bwyd yn rhan allweddol ohoni.

12. Ysgrifennwch **ymson** pot iogwrt.